# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul adran o gostau aros dros nos yn y pedair blynedd diwethaf, fesul mis ac yn ôl llinell cyllideb. (WAQ56808)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ni chaiff dadansoddiad o'r llety dros nos a'r gynhaliaeth a hawlir ei gasglu'n ganolog drwy'r systemau presennol. Dim ond drwy archwilio cofnodion adrannau unigol i nodi achosion penodol y gellid cael y wybodaeth hon. Oherwydd costau afresymol casglu'r wybodaeth hon, nid yw felly'n briodol darparu'r wybodaeth hon.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi pa ostyngiadau mewn costau rheoli sydd wedi'u cyflawni o ganlyniad i'r ad-drefnu diweddar ym maes iechyd. (WAQ56807)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Ionawr 2011***

Ers mis Hydref 2009, arbedwyd £7.8m ar gostau rheoli.

Cynllunnir arbed £17.2m yn rhagor yn 2010/11 ac £16.2m dros y tair blynedd nesaf i greu cyfanswm o dros £40m neu 20% dros y cyfnod cynllunio.

Y cynllun yw lleihau'r costau rheoli i 3.4% o gyfanswm y gost.

Ceir ffocws parhaus ar leihau costau rheoli a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar yr adnoddau a gaiff eu rhoi i wasanaethau rheng flaen.

Caiff lleihad yn nifer y rheolwyr a staff gweinyddol a chlercol a'u costau ei fonitro'n agos gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.